**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghori Defnyddwyr Harbwr ABERAERON wedi'i gynnal yn hybrid o bell ar ddydd Iau 19 Hydref 2023**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion:** Y Cynghorydd Keith Henson (Cadeirydd) y Cynghorwyr Elizabeth Evans a Matthew Vaux

**Swyddogion yn Bresennol:** Gerwyn Jones, Owen Morgan, Katy Spain and Dana Jones

**Defnyddwyr yr Harbwr**: Norman Robertson, Chis Seal, Owen Jones-Williams. Stephen Webb, Carl Rich, Jonathan Price Jones, David Nicholson, Jonathan Evans, Brett Stones, David Barnes, Mike Masters, Patricia Lewis, Sandra Cosslett

(5.30pm – 6.25pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   Dim.

2. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd 16 Mawrth 2023**
   CYTUNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 fel cofnod cywir.

3. **Diweddariad Gwasanaeth yr Harbwr**
   Amlinellodd Owen Morgan, Rheolwr yr Harbwr gynnwys Dyfroedd Tawel 5 a nodwyd y cynnwys hwn gan yr Aelodau. Adroddwyd bod digwyddiad ar gyfer rhanddeiliaid yn cael ei gynnal y mis nesaf mewn perthynas â Chynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron yn Neuadd y Sir. Byddai hyn yn gyfle i ofyn cwestiynau a chodi unrhyw bryderon. Nododd yr Aelodau hefyd bod croeso i gymhorthfa'r Harbwr, er bod yr amser yn anghyfleus i ddefnyddwyr yr harbwr a oedd yn gweithio. Cydnabyddwyd y byddai'n anodd os nad yn amhosibl cael amser a fyddai'n addas ar gyfer pawb. Er hyn, roedd cael cyfarfodydd wedi'u trefnu'n darparu strwythur. Roedd hwn yn un o nifer o ffyrdd y gallai rhanddeiliaid ymgysylltu â Gwasanaethau'r Harbwr. Roedd hwn yn drefniant gymharol newydd a byddai'r gwasanaeth yn adolygu'n barhaus. Hyd yn hyn, roeddent wedi profi i fod yn rhyngwyneb cadarnhaol rhwng Defnyddwyr yr Harbwr a Gwasanaeth yr Harbwr. Cytunwyd hefyd y byddai Côd Ymddygiad Bae Ceredigion yn cael ei arddangos yn y Clwb Hwylio.

4. **Rhestr Aros Angorfa**
   Cytunwyd nodi rhestr aros angorfa fel y'i cyflwynwyd.

5. **Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr**
   Codwyd y pryderon gan Ddefnyddwyr yr Harbwr a'r Cynghorydd Sir Elizabeth Evans:-

- Nododd y Cynghorydd Sir Elizabeth Evans, fel rhan o’r broses gyllido, y byddai’n gofyn am ystyriaeth ynghylch codi tâl angori ar y blaendraeth a’r harbwr a oedd wedi’i gynnwyd yn Ystadau’r Goron.

- Adroddodd Owen Morgan bod ymatebion i’r holl gwestiynau a ddanfonwyd cyn y cyfarfod wedi’u hateb, er, nododd Stephen Webb nad oedd yr ymatebion yn dderbyniol gan ei fod ef o’r farn bod y fforwm hwn gyfle i drafod y cwestiynau ymhellach. Roedd nifer o’r materion y gofynnwyd i’w codi gan Ddefnyddwyr yr Harbwr yn y cyfarfod nail ai’n weithredol neu’n bersonol a byddai’r rhain yn cael eu codi’n fwy priodol trwy ddulliau cyfathrebu eraill sydd ar gael i’r rhanddeiliaid.

- Cadarnhaodd Owen Morgan bod gan y gwasanaeth restr o swyddi a oedd angen mynd i’r afael â hwy trwy’r broses cyllid a chaffael i gan gynnwys ystyriaethau i’r polyn llithro maes o law.

- Cododd Stephen Webb mater angori C1 a 2 a ystyriwyd ganddo i’r ddyrannu i Glwb Hwylio Aberaeron. Cynghorodd Owen Morgan, yn ôl cofnodion y Cyngor, dim ons C1 oedd wedi’i ddyrannu’n swyddogol i Glwb hwylio Aberaeron. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach yn dilyn y cyfarfod.

- Mewn perthynas â’r twll a oedd wedi cwympo wrth ymydl swyddfa Rheolwr yr Harbwr a’r llithrfa, cynghorwyd gan Owen Morgan nad oedd hyn yn cwympo o dan gylch gwaith Gwasanaeth yr Harbwr. Gofynnwyd am eglurhad pellach gan y Gwasanaethau Ystadau ar y ffordd ymlaen i fynd i’r afael â’r mater.

- Dywedodd un o ddefnyddwyr yr harbwr, er mwyn mynd i'r afael â phroblem gyda malurion yn ddiweddar yn ystod tywydd garw, bod rhai rhanddeiliaid wedi cymryd arnynt eu hunain i gael gwared ar falurion a gofyn a oedd protocol ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol ac os mai'r Cyngor Sir neu Cyfoeth Naturiol Cymru oedd yn gyfrifol am y gwaith glanhau. Nid yw'r Gwasanaeth Harbwr yn annog nac yn cymeradwyo rhanddeiliaid sy'n dod i mewn i'r harbwr at ddibenion o'r fath. Adroddwyd mai'r Cyngor Sir oedd yn gyfrifol am yr afon o ochr harbwr y bont ar yr A487. Nodwyd bod hyn yn broblem wrth i berchnogion cychod gael yswiriant, mewn ymateb, dywedodd Rheolwr yr Harbwr fod holl ddefnyddwyr yr harbwr yn ymwybodol o risgiau a pheryglon yr harbwr wrth wneud cais am angor, fodd bynnag, byddai'n trafod y mater ymhellach gyda chydweithwyr ym maes caffael ynghylch ymgysylltu â chontractwyr ar fyr rybudd mewn ymateb i falurion nad oeddent yn naturiol wedi gadael yr harbwr ac y penderfynwyd bod angen iddo fod Dileu wrth symud ymlaen.